

# Cyfryngau'r Genedl

Cymru 2024



Cyhoeddwyd 31 Gorffennaf 2024

# Cynnwys


Trosolwg ..... 3

Cyflwyniad ..... 3

Prif ganfyddiadau ..... 3

Teledu a fideo ..... 4

Datblygiadau yn y farchnad ..... 4

Dyfeisiau a gwasanaethau teledu ..... 6

Tueddiadau gwylio ..... 9

Tueddiadau gwylio fideo ar-alw ..... 16

Ffynonellau newyddion ..... 19

Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru ..... 23

Radio a sain ..... 29

Datblygiadau yn y farchnad ..... 29

Argaeledd a darpariaeth Radio ..... 30

Refeniw radio masnachol ..... 31

Gwrando ar radio byw yng Nghymru ..... 32

Gwrando ar-lein yng Nghymru ..... 37

# Trosolwg

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad *Cyfryngau'r Genedl: Cymru* yn trin ac yn trafod y tueddiadau allweddol sydd wedi ymddangos yn y sector cyfryngau ac mae’n nodi sut wasanaeth gaiff cynulleidfaoedd Cymru. Rydym yn mabwysiadu safbwynt ar draws platfformau, gan gynnwys teledu a radio a ddarlledir, yn ogystal â darpariaeth ddigidol gan gynnwys fideo ar-lein a ffrydio sain.

Mae’r adroddiad yn darparu tueddiadau a dadansoddiad yn seiliedig ar sawl set ddata, gan gynnwys data wedi’i gasglu yn uniongyrchol gan ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig (ar gyfer allbwn, gwariant a refeniw), ynghyd â data BARB a RAJAR ac ymchwil defnyddwyr Ofcom (ar gyfer defnydd cynulleidfa).

Yn ogystal â’r adroddiad hwn ar gyfer Cymru, ceir adroddiadau ar wahân ar gyfer y DU gyfan, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Prif ganfyddiadau




*Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Barb, RAJAR, Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom 2024 wedi’i gyfuno ar-lein a CATI.*

# Teledu a fideo

## Datblygiadau yn y farchnad

### Cymru Greadigol

Cymru Greadigol yw asiantaeth Llywodraeth Cymru sydd â'r dasg o gefnogi twf y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Ym mis Mai, cyhoeddodd yr ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer ei Gronfa Ddatblygu £840,000, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau newydd gan grewyr o Gymru, gyda'r nod o roi mwy o gyfle iddynt gael eu comisiynu a'u cynhyrchu. Ymysg y derbynwyr y dyfarnwyd cyllid iddynt mae Carlam Ltd, Boom Cymru, Little Wander, Avalanche Productions, Hello Deer Studios Ltd a Rondo.

### Dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwnc llosg yng Nghymru ar hyn o bryd. Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan a Phwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ymchwiliadau manwl ar ddarlledu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, gydag Ofcom yn rhoi tystiolaeth i bwyllgorau San Steffan a'r Senedd. Cyfrannodd y rhain at y ddadl ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ei adroddiad a daeth i'r casgliad, er bod rhaglenni a wneir yng Nghymru am Gymru yn hanfodol, bod diwygio darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hanfodol.

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant y Senedd ei adroddiad Y sefyllfa sydd ohoni:Darlledu yng Nghymru, yn dilyn ei ymholiad i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Roedd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd darlledu o ran portreadu a siapio hunaniaeth Cymru.

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i Ofcom. Mewn ymateb, fe wnaethom egluro y byddwn yn dechrau ar yr adolygiad diweddaraf o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn fuan. Bydd ein hadolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi fwyaf, gan gynnwys eu canfyddiadau o newyddion. Bydd hefyd yn edrych ar sut mae cynnal cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus dros y degawd nesaf a thu hwnt, a sut mae cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu ac yn cynrychioli pob rhan o'r DU wrth i arferion gwylio cynulleidfaoedd newid.

Yn fwy cyffredinol, fe wnaeth y Panel Arbenigol, a gafodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru er mwyn edrych ar greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol ar gyfer Cymru, gymryd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys Ofcom. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Corff Cynghori i ddarparu rhagor o arweiniad ar ddarlledu a chyfathrebu ac i lywio polisïau yng Nghymru.

## Deddf Cyfryngau

Yn ystod y flwyddyn, pasiodd Bil Cyfryngau Llywodraeth y DU drwy ei gamau craffu a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2024.  Ymhlith darpariaethau eraill, mae'r Ddeddf yn ehangu cylch gorchwyl S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein, yn caniatáu i S4C gynnig ei chynnwys ar amrywiaeth o blatfformau, ac yn dileu'r cyfyngiadau daearyddol sydd wedi cyfyngu ar allu S4C i ddarparu gwasanaethau y tu allan i Gymru. Mae hefyd yn darparu sylfaen statudol i'r bwrdd unedol newydd a'r trefniadau archwilio a argymhellwyd gan yr adolygiad annibynnol o S4C.

## Comisiynau rhaglenni Cymraeg yn 2023

### BBC Cymru Wales

Roedd drama yn nodwedd allweddol o allbwn BBC Cymru Wales yn ystod y cyfnod hwn, gyda phum prif deitl yn cael eu darlledu ar BBC One ledled y DU.

Roedd y rhaglenni hyn yn cynnwys *Steeltown Murders*, wedi'i leoli yn ardaloedd Castell-nedd a Phort Talbot, a wnaeth ddenu 5.7 miliwn o wylwyr ledled y DU. Roedd *Men Up* yn ddrama am dreialon cyffur analluedd i ddynion yn ne Cymru, gyda'r ddrama drosedd *Wolf* yn denu cynulleidfa o 4.1 miliwn o wylwyr ledled y DU. Roedd *The Way*, ymddangosiad cyfarwyddol cyntaf yr actor Michael Sheen, hefyd yn boblogaidd, tra bod *Lost Boys and Fairies* yn cyflwyno stori gofiadwy am fabwysiadu. Roedd cyd-gomisiwn cyntaf BBC Cymru Wales gyda BBC Network, *Mammoth*, yn dilyn hanes yr athro Addysg Gorfforol, Tony Mammoth.

Roedd Cwpan Rygbi'r Byd hefyd yn cael sylw gan BBC Cymru Wales, gyda phob gêm yng Nghymru ar gael i wrando arni'n fyw ar BBC Sounds, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru yn ogystal â phodlediad *Scrum V Rugby*.

### ITV Cymru Wales

Mae chwaraeon yn rhan hanfodol o hunaniaeth genedlaethol Cymru ac mae ITV Cymru Wales wedi ceisio dod â phobl at ei gilydd mewn digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol pwysig fel Cwpan Rygbi'r Byd Dynion 2023. Roedd y twrnamaint ar gael i'w wylio am ddim, a llwyddodd gêm Cymru yn erbyn yr Ariannin i ddenu cynulleidfa o 4.1 miliwn ledled y DU, gydag 86% o'r gynulleidfa deledu sydd ar gael yng Nghymru yn gwylio'r gêm ar ITV.

Yn dilyn lansiad gwasanaeth ffrydio newydd ITV yn 2022, ITVX, yn 2023 lansiwyd 'rheilen' (ardal cynnwys) benodol ar gyfer ITV Cymru Wales ar y gwasanaeth, gan arddangos rhaglenni, newyddion a newyddiaduraeth ITV Cymru Wales i gynulleidfaoedd yng Nghymru ac ar draws y DU.

Ar ddechrau 2023, cafodd ITV Cymru Wales Wobr RTS Cymru Wales am y Rhaglen Ffeithiol Orau ar gyfer *Miscarriage: The Hidden Loss.* Cyflwynwyd y rhaglen gan gyflwynydd Wales at Six ITV Cymru Wales, Andrea Byrne, a rannodd ei phrofiad ei hun o gamesgoriad gyda'r nod o chwalu rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r pwnc.

Roedd cyfres materion cyfoes hirsefydlog y sianel, *Y Byd ar Bedwar*, yn cynnwys nifer o ymchwiliadau, gan gynnwys ymchwiliad arbennig i Gwpan y Byd FIFA yn Qatar.

### S4C

Mae S4C yn darparu cynnwys Cymraeg i'w gynulleidfaoedd sy'n adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.

Mae chwaraeon yn parhau i fod yn gonglfaen i wasanaethau S4C. Yr hydref diwethaf, rhoddodd S4C sylw i gefnogwyr rygbi Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd 2023 yn Ffrainc, yn ogystal â darllediadau am ddim o gemau menywod Cymru drwy gydol cystadleuaeth rygbi Cymru.

Er nad oedd tîm pêl-droed dynion Cymru wedi llwyddo i gyrraedd Pencampwriaeth Ewrop UEFA yn 2024, roedd cefnogwyr pêl-droed Cymru yn gallu gwylio gemau rhagbrofol y tîm yn Gymraeg ar S4C. Fe wnaeth S4C hefyd barhau i ddarlledu amrywiaeth o chwaraeon eraill gan gynnwys y Tour de France, ralïau Pencampwriaeth Rali'r Byd, a Chyfres Triathlon Cymru.

Darparodd S4C nifer o gyfresi drama. Roedd y rhain yn cynnwys y portread gonest a di-flewyn-ar-dafod o famolaeth yn *Anfamol*, treialon a helyntion carcharorion a swyddogion carchar yn *Bariau*, a byd bregus iechyd meddwl a galar yn *Creisis*.

Roedd y cydgynhyrchiad rhwng S4C a BBC Cymru Wales, *Pren ar y Bryn* (*Tree on a Hill*), drama gomedi dywyll, yn tynnu sylw at ymrwymiad y ddau ddarlledwr i weithio gyda'i gilydd i greu cynyrchiadau wedi'u ffilmio gefn wrth gefn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar gyfer cynulleidfaoedd iau S4C, roedd *Y Coridor,* cyfres ddrama ffurf ganolig, yn edrych ar ddiflaniad dirgel Willow, disgybl ysgol uwchradd.

Mae gwasanaeth S4C ar gyfer plant ifanc, Cyw, wedi parhau i ddarparu cyfleoedd pwysig i wylio a mwynhau dysgu am y byd drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chyfresi fel *Ne-wff-ion* a *Cywion Bach*. Yn yr hydref, lansiwyd *Newyddion Ni*, rhaglen newyddion newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cynnig newyddion a straeon chwaraeon mewn ffordd hygyrch ar draws ystod o blatfformau.

Mae dysgwyr Cymraeg yn gynulleidfa bwysig i S4C, ac mae'n darparu ystod eang o raglenni gan gynnwys *Iaith ar Daith*, i helpu i ddysgu'r iaith, a chyfresi adloniant fel *Gogglebocs Cymru* ac *Am Dro!*, sy'n cynnwys iaith glir a hawdd ei dilyn. Mae S4C Clic, a gwefan S4C Dysgu Cymraeg, yn cynnig awgrymiadau cynnwys addas, ac mae'r adnoddau hyn yn cefnogi astudiaeth iaith ffurfiol ac anffurfiol.


# Dyfeisiau a gwasanaethau teledu

## Roedd pedwar o bob deg aelwyd yng Nghymru wedi cael gwasanaeth teledu y telir amdano yn Ch1 2024

Yn Ch1 2024 roedd setiau teledu ar gael ym mhobman mewn aelwydydd yng Nghymru, gyda 96% â set deledu, sy'n uwch na chyfartaledd y DU (94%). Roedd nifer yr aelwydydd â theledu lloeren y telir amdano neu gebl traddodiadol wedi aros yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall ar 41%, o'i gymharu â gostyngiad o 3 pwynt canran ledled y DU yn gyffredinol. Roedd aelwydydd teledu y telir amdanynt yn parhau i gael eu dominyddu gan wasanaethau lloeren y telir amdanynt, gyda 35% o aelwydydd yn talu am danysgrifiad Sky, sy'n sefydlog ers 2023.

Roedd gwasanaethau daearol digidol yn unig (a ddarperir drwy erial) yn parhau i fod yn brif ffordd o wylio teledu heb danysgrifiad, sy'n bresennol mewn 28% o gartrefi. Roedd aelwydydd a oedd yn cael gwasanaeth teledu protocol rhyngrwyd (IPTV) yn parhau ar 5% gyda'r nifer a oedd yn cael gwasanaethau lloeren am ddim gan Freesat neu Sky yn gostwng o 7% i 5%, sy'n debyg i gyfartaledd y DU.

**Ffigur 1: Y nifer sy'n defnyddio platfformau teledu yng Nghymru: Ch1 2024**





*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB, Ch1 2024. Mae 'gwasanaethau DTT yn unig' yn cynnwys aelwydydd sydd ag erial yn unig ac nid cebl, lloeren neu IPTV. Mae IPTV yn cynnwys BT Vision, TalkTalk neu Youview. Yn adroddiad 2023 roedd hyn yn cynnwys Plusnet – nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael mwyach ac mae wedi cael ei dynnu o'r arolwg.*

## Roedd gan wyth o bob deg defnyddiwr teledu yng Nghymru deledu wedi'i gysylltu yn 2024

Mae sawl ffordd y gall defnyddwyr teledu yng Nghymru gysylltu eu setiau teledu â'r rhyngrwyd. Gall hyn fod drwy deledu 'clyfar' sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r rhyngrwyd neu drwy flychau pen-set a ddarperir gan ddarparwyr teledu drwy dalu fel Sky, Virgin Media neu BT. Mae dyfeisiau allanol fel ffyn ffrydio a chonsolau gemau hefyd yn gallu darparu mynediad i'r rhyngrwyd i setiau teledu.

Wedi'i fesur yn hanner cyntaf 2024, roedd gan wyth o bob deg (84%) o ddefnyddwyr teledu â chysylltiad i'r rhyngrwyd gartref yng Nghymru deledu wedi'i gysylltu, sy'n debyg iawn i gyfartaledd y DU (73%). Roedd defnyddwyr teledu yng Nghymru yn fwy tebygol o ddefnyddio cysylltiad rhyngrwyd i wylio gwasanaethau ffrydio (ee Netflix ac Amazon Prime, sydd i'w gweld yn aml ar y ddewislen neu sgrin hafan) ar eu teledu clyfar nag yn y DU yn gyffredinol (51% o gymharu â 42%).

**Ffigur 2: Setiau teledu wedi’u cysylltu yng Nghymru: 2024**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2024. Cwestiwn T6: Ydych chi neu unrhyw un yn eich aelwyd yn defnyddio’r rhyngrwyd i wylio cynnwys ar eich set deledu gan ddefnyddio unrhyw un o’r dulliau hyn?. Sylfaen: Aelwydydd sy’n gwylio’r teledu sydd â chysylltiad rhyngrwyd y maent yn ei ddefnyddio Cyfanswm y DU (3,497), Gogledd Iwerddon (410), Lloegr (2192), yr Alban (453) a Chymru (442).*

**Band Eang yng Nghymru**

Roedd gan dros naw cartref o bob deg (93%) yng Nghymru gysylltiad â'r rhyngrwyd, fel y mesurwyd yn hanner cyntaf 2024, tra bod gan 87% fand eang sefydlog.[1] Yn 2023, roedd gwasanaethau band eang cyflym iawn (sy’n cynnig cyflymder llwytho i lawr o 30 Mbit yr eiliad o leiaf) ar gael i 96% o’r holl gartrefi yng Nghymru. O’r rhain, roedd saith o bob deg cartref (73%) yn defnyddio gwasanaeth cyflym iawn, i fyny o 71% yn 2022. Roedd gwasanaethau ffeibr llawn ar gael mewn 55% o aelwydydd yng Nghymru yn 2023, ac roedd y nifer a oedd yn defnyddio’r cartrefi hynny yn 31%. Cynyddodd argaeledd ffeibr llawn i 61% o aelwydydd yng Nghymru ddechrau 2024.[2]

[1] Traciwr Technoleg 2024 Ofcom.
[2] Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr. Cyfeiriwch at adroddiad Cysylltu’r Gwledydd y DU 2023, Adroddiad Cysylltu’r Gwledydd Cymru a diweddariad Cysylltu’r Gwledydd:Gwanwyn 2024 i gael rhagor o wybodaeth.


# Tueddiadau gwylio

## Cyfanswm gwylio clyweledol yn y cartref

### Cymru oedd y wlad a oedd wedi gwylio'r nifer mwyaf o gynnwys fideo yn 2023

Ar gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru yn gwylio 5 awr 4 munud o gynnwys fideo bob dydd yn 2023, yr uchaf ymysg gwledydd y DU. Roedd hyn 20 munud yn fwy y dydd nag yn 2022, ac yn gynnydd mwy o flwyddyn i flwyddyn nag mewn unrhyw wlad arall. Roedd cynnwys gan ddarlledwyr – sy'n cynnwys teledu byw, teledu wedi'i recordio a fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) – yn cyfrif am 56% o'r amser hwn (2 awr 51 munud), sydd ar yr un lefel â'r Alban. O fewn hyn, roedd gwylio byw yn cyfrif am gyfran lai o gymharu â gwledydd eraill y DU (38%), ac roedd fideo ar-alw darlledwyr yn cyfrif am fwy o amser gwylio nag mewn gwledydd eraill, ar 26 munud. Roedd pobl yng Nghymru wedi treulio 16% (47 munud) o gyfanswm eu hamser fideo ar danysgrifio fideo ar-alw (SVoD) a hysbysebu gwasanaethau fideo ar-alw (AVoD), ac 16% ar blatfformau rhannu fideos.

**Ffigur 3: Cyfanswm munudau gwylio fideos bob dydd yn y cartref fesul person, yn ôl platfform, yn ôl gwlad: 2023**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwelwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith WiFi y cartref. Mae cynnwys darlledwyr yn cynnwys teledu byw, chwarae recordiadau a BVoD. Mae 'defnydd arall o setiau teledu' yn cynnwys gwylio ar rai SVoD/AVoD/VSP na ellir eu mesur yn derfynol, yn ogystal â rhai sianeli darlledu heb eu mesur, rhywfaint o bori ar yr EPG/dewislen, gwylio pan fydd y sain yn dawel, lladrad, setiau bocs heb eu mesur/cynnwys talu-i-wylio, a gweithgarwch rhyngrwyd heb fod yn fideo drwy gyfrifiadur personol neu ddyfais arall sydd wedi'i chysylltu â'r teledu. Nid yw SVoD /AVoD yn cynnwys gwylio NOW, sy'n gynwysedig o fewn BVoD ynghyd â Sky Go/Sky TV On Demand (mae'r ddau wasanaeth hyn yn ffrydio'r un cynnwys, felly ni ellir gwahanu gwylio wedi'i fesur).*

# Gwylio teledu wedi'i ddarlledu yng Nghymru

**O ble daw ein data**


Daw'r rhan fwyaf o'r data gwylio gan Barb Audiences Ltd (Barb), sef safon y diwydiant ar gyfer mesur beth mae pobl yn ei wylio. Mae hyn yn cynnwys gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu drwy setiau teledu a thrwy ddyfeisiau sy'n gysylltiedig â setiau teledu, fel cyfrifiaduron, dyfeisiau ffrydio a blychau pen-set. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o wylio ar gyfer gwasanaethau ffrydio ar-lein ac ar gyfer dyfeisiau nad ydynt wedi'u cysylltu â'r teledu sy'n cael eu gwylio gartref drwy WiFi. Nid yw Barb yn cynnwys gwylio gwasanaethau SVoD na phlatfformau rhannu fideos y tu allan i'r cartref.

Oni nodir fel arall, mae'r ffigurau Barb a nodir ar gyfer darlledu ar deledu ar gyfer gwylio wedi'i gyfuno dros 28 diwrnod ar set deledu. Mae gwylio cyfunol yn cynnwys gwylio rhaglenni ar yr adeg y cawsant eu darlledu (gwylio byw) yn ogystal â recordiadau ar recordwyr fideo digidol (DVRs) a thrwy wasanaethau BVoD ar-lein (ee BBC iPlayer, ITV, a Sky Go/Sky TV On Demand) hyd at 28 diwrnod ar ôl y darllediad cyntaf (gwylio'n ddiweddarach).

## Roedd cyfradd y gostyngiad ar gyfer gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yng Nghymru wedi arafu yn 2023

Ar gyfartaledd yn 2023, treuliodd pobl yng Nghymru 2 awr 42 munud y dydd yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ar set deledu, y trydydd mwyaf o unrhyw wlad yn y DU. Roedd hyn dri munud yn llai nag yn 2022, gan roi amser gwylio cyfartalog Cymru yn is na Gogledd Iwerddon am y tro cyntaf. Ac eithrio Gogledd Iwerddon, lle roedd lefelau gwylio cyfartalog wedi aros yn gyson o un flwyddyn i'r llall, Cymru oedd â'r gostyngiad cyfrannol lleiaf o blith yr holl wledydd (1.9%), 3.7 pwynt canran yn llai na'r gostyngiad cyfartalog yn y DU.

**Ffigur 4: Swm cyfartalog y munudau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu y dydd, y pen, yn ôl gwlad: 2018-2023**





*Ffynhonnell: Data cyfunol 28 diwrnod BARB. Unigolion (4 oed a hŷn), setiau teledu yn unig.*

## Gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ymysg oedolion 25-34 oed a'r rheini dros 54 oed yn aros yn sefydlog

Yn unol â'r duedd gyffredinol ar draws y DU, mae pobl hŷn yng Nghymru yn gwylio mwy o deledu sy'n cael ei ddarlledu ar set deledu o'i gymharu â gwylwyr iau. Roedd pobl dros 54 oed wedi gwylio mwy nag unrhyw grŵp oedran arall, sef 4 awr 59 munud y dydd ar gyfartaledd, yn gyson ers 2022. Roedd hyn yn gwrthgyferbynnu â'r DU a'r Alban, lle roedd lefelau gwylio wedi gostwng 3% a 4%, a Gogledd Iwerddon, lle roedd wedi cynyddu 4.2%. Roedd oedolion yng Nghymru 25-34 oed yn gwylio 1 awr 2 funud o deledu sy'n cael ei ddarlledu bob dydd ar gyfartaledd, sy'n debyg i 2022. I'r gwrthwyneb, gwelwyd gostyngiad o 12% a 22% yn nifer y gwylio teledu a ddarlledwyd ymhlith y grŵp oedran hwn yn y DU a'r Alban. Yn unol â'r DU a'r gwledydd eraill, y rhai 16-24 oed yng Nghymru a wyliodd y lleiaf o deledu, ar gyfartaledd o 37 munud y dydd, i lawr 21.5% ers 2022.

**Ffigur 5: Swm cyfartalog y munudau o wylio teledu a ddarlledir y dydd yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran: 2022-2023**




*Ffynhonnell: Data 28 diwrnod cyfunol Barb, setiau teledu yn unig. Yn aml, nid yw gwahaniaethau bach o flwyddyn i flwyddyn mewn munudau yn arwyddocaol yn ystadegol.*

## Digwyddiadau arbennig, adloniant, drama a rygbi'r undeb oedd yn dominyddu'r rhaglenni teledu a gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru yn 2023

*New Year's Eve Fireworks*, gyda chynulleidfa gyfartalog o 722,000 o wylwyr, a phennod olaf ond un y ddrama boblogaidd *Happy Valley* (cyfres 3 pennod 5), gyda 656,000 o wylwyr, y ddau ar BBC One, oedd ar frig y rhestr o'r rhaglenni a gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru yn 2023. Aeth y trydydd safle i gêm grŵp Cwpan Rygbi'r Byd rhwng Cymru ac Awstralia, gyda Chymru yn ennill 40-6, gan ddenu cynulleidfa gyfartalog o 610,000 o wylwyr ar ITV1 Cymru Wales.

Cymru a Gogledd Iwerddon oedd yr unig ddwy wlad lle'r oedd rygbi'r undeb yn ymddangos yn y deg rhaglen fwyaf poblogaidd. Daeth poblogrwydd rygbi yng Nghymru â dwy gêm i'r deg uchaf: yn y seithfed safle roedd darllediad Rygbi'r Chwe Gwlad ar BBC One, gyda chynulleidfa gyfartalog o 515,000, gyda buddugoliaeth i'r Alban dros Gymru (35-7).

Ynghyd â *Happy Valley*, y dramâu eraill ymysg y rhai a gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru oedd *Death in Paradise* (cyfres 12 pennod 1), gyda 545,000 o wylwyr, *Beyond Paradise* (pennod gyntaf y rhaglen newydd sy'n deillio o *Death in Paradise*), gyda 519,000 o wylwyr a phennod 1 cyfres gyntaf

*The Gold*, gyda 491,000 o wylwyr, i gyd ar BBC One, ac yn y pedwerydd, chweched a nawfed safle yn y drefn honno.

Mae rhaglenni adloniant fel *Eurovision Song Contest* BBC One, gyda chynulleidfa gyfartalog o 522,000, a rhaglen ITV1 Cymru Wales *I'm a Celebrity… Get Me Out of Here!* (511,000) yn bumed ac yn wythfed, ac roedd rhan o ddarllediadau Coroni BBC One, gyda chyfartaledd o 481,000 o wylwyr, yn y degfed safle.

**Ffigur 6: Y deg rhaglen a gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru: 2023**

| Safle | Teitl | Sianel | Dyddiad darlledu | Cynulleidfa gyfartalog (000oedd) | Cyfran* (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Tân Gwyllt Nos Calan | BBC One | 31/12/2023 | 722 | 61.7 |
| **2** | Happy Valley | BBC One | 29/01/2023 | 656 | 39.5 |
| **3** | Cwpan Rygbi'r Byd | ITV1 Wales | 24/09/2023 | 610 | 53.5 |
| **4** | Death in Paradise | BBC One | 06/01/2023 | 545 | 47.2 |
| **5** | Eurovision Song Contest | BBC One | 13/05/2023 | 522 | 63.2 |
| **6** | Beyond Paradise | BBC One | 24/02/2023 | 519 | 44.4 |
| **7** | Rygbi'r Chwe Gwlad | BBC One | 11/02/2023 | 515 | 57.2 |
| **8** | I'm a Celebrity... Get Me Out of Here! | ITV1 Wales | 19/11/2023 | 511 | 47.3 |
| **9** | The Gold | BBC One | 12/02/2023 | 491 | 33.0 |
| **10** | Coroni'r Brenin a'r Frenhines Camilla (prynhawn) | BBC One | 06/05/2023 | 481 | 50.7 |

*Ffynhonnell: Data cyfunol 28 diwrnod Barb, gan gynnwys dal i fyny ac ar alw, ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith WiFi y cartref, unigolion 4 oed a hŷn. Pennod sy'n perfformio orau o bob teitl yn unig, felly nid yw'n cynnwys yr ail bennod o Happy Valley a gafodd ei gwylio fwyaf (5 Chwefror ar BBC One), er enghraifft. Mae'n cynnwys sianeli +1 lle bo hynny'n berthnasol. *Mae rhannu yn dynodi cynulleidfa'r rhaglen fel canran o gyfanswm y gynulleidfa ar gyfer teledu sy'n cael ei ddarlledu yn y slot yr oedd y rhaglen arno.*


## Roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynrychioli dros hanner o gyfanswm y gwylio teledu

**Beth yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus?**

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd yng Nghymru gan y BBC, ITV (sy'n dal trwydded Channel 3 yng Nghymru), S4C, Channel 4 Corporation (C4C) a Channel 5. Er bod holl wasanaethau teledu'r BBC ac S4C yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr eraill sydd yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel newyddion a chynyrchiadau gwreiddiol, mae'r darlledwyr hyn yn cael manteision penodol: mynediad i sbectrwm (y tonnau radio gwerthfawr sy'n cynnal cyfathrebu di-wifr) er mwyn darlledu eu gwasanaethau; amlygrwydd ar gyfeiryddion rhaglenni electronig ar deledu; ac, ar gyfer y BBC ac S4C, ffi'r drwydded.

Yn 2023, roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfran o 51.5% o gyfanswm y gynulleidfa a wyliodd y teledu wedi'i ddarlledu yng Nghymru. Roedd hyn yn ostyngiad bach o'r ffigur yn 2022, sef 52.6%. BBC One oedd â'r gyfran cynulleidfa uchaf o unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol, sef 22.3%, a Channel 4 oedd â'r gyfran isaf, sef 3.5%, yr isaf hefyd ymhlith gwledydd y DU. Cyfran cynulleidfa BBC One a Channel 5 yng Nghymru yw'r uchaf ymysg gwledydd y DU.

**Ffigur 7: Cyfran o wylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ar gyfer y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl gwlad: 2023 (%)**





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4 oed a hŷn), setiau teledu yn unig. Nid yw'n cynnwys unrhyw sianeli +1 awr. Mae S4C hefyd yn sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac roedd ganddi gyfran o 1.3% yng Nghymru yn 2023.*

## Agweddau a theimladau cynulleidfaoedd at ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

### Yn gyffredinol, mae tri gwyliwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus o bob pump yng Nghymru yn dweud eu bod yn fodlon â sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Canfu Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM) Ofcom fod tri o bob pump (60%) o wylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru wedi dweud[3] eu bod yn fodlon â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol; yn is na chyfanswm y DU (67%). Dywedodd tua un o bob pump (18%) eu bod yn anfodlon, sydd hefyd yn uwch na chyfanswm y DU (12%). Mae bodlonrwydd ac anfodlonrwydd wedi newid ers 2022[4] a byddwn yn parhau i fonitro hyn.

**Ffigur 8: Bodlonrwydd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol – cyfanswm y DU ac yn ôl gwlad: 2023**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023. Cwestiwn 28. A nawr, os ydych chi'n meddwl am BOB sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd, pa mor fodlon ydych chi eu bod, gyda'i gilydd, yn darparu'r gwahanol elfennau y gofynnwyd amdanyn nhw yn y cwestiwn blaenorol? Sylfaen: Pawb sydd wedi gwylio gwasanaeth/sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y 6 mis diwethaf, Cyfanswm y DU (2,841), Gogledd Iwerddon (230), Lloegr (2,029), yr Alban (293), Cymru (289). Sylwch, nid yw'n dangos labeli canrannol o dan 4%.*

### Mae tua pedwar o bob pump o wylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn fodlon ar Channel 4 a BBC One

Pan ofynnwyd iddynt ystyried sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unigol, dywedodd tua saith o bob deg gwyliwr eu bod yn fodlon â BBC One (73%), BBC Two (70%) a Channel 4 (69%). Dywedodd cyfran ychydig yn is yr un fath ar gyfer ITV Cymru Wales (65%) a Channel 5 (62%). Bu gostyngiadau yn 2023 mewn bodlonrwydd ar gyfer Channel 4 a Channel 5, o gymharu â 2022, ac ar gyfer ITV Cymru Wales o gymharu â 2021[5]; byddwn yn parhau i fonitro hyn.


---

[3]Mae Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023 Ofcom yn diffinio gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel pawb sydd wedi gwylio sianel/gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis diwethaf

[4] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom, Cymru: Bodlon NET: 2021 72%, 2022 69%, 2023 60% ac Anfodlon NET: 2021 10%, 2022 10%, 2023 18%.

[5] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom, Cymru: Channel 4 Bodlon NET: 2022 80%, 2023 69% a Channel 5 Bodlon NET: 2022 74%, 2023 62%. Ar gyfer ITV Cymru Wales, bodlon NET: 2021 76%, 2022 69%, 2023 65%.

**Ffigur 9: Bodlonrwydd â sianeli unigol: 2023**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023. Cwestiwn 23. Gan feddwl am rai o'r sianeli penodol rydych chi wedi'u gwylio yn ystod y 6 mis diwethaf, yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r sianeli teledu hyn? Sylfaen: Pawb sydd wedi gwylio ... yn ystod y 6 mis diwethaf, BBC One (257), BBC Two (229), Channel 4 (249), ITV Cymru Wales (193), Channel 5 (210), S4C** (314). Sylwch, mae S4C yn seiliedig ar ymatebwyr o'r DU gan fod maint y sylfaen yng Nghymru yn rhy isel i adrodd arno. Sylwch hefyd nad yw'n dangos labeli canrannol o dan 3%.*

## Mae newyddion dibynadwy a chywir yn y DU yn cael ei ystyried yn un o elfennau pwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru

Yn 2023, gofynnodd y Traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i ymatebwyr[6] ystyried y tair nodwedd bwysicaf i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu darparu i gymdeithas yn gyffredinol. Roedd tua hanner (48%) o gynulleidfaoedd yng Nghymru yn gosod *'newyddion cywir a dibynadwy y DU'* yn eu tri uchaf. Dilynwyd hyn gan '*amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni*' (43%), '*rhaglenni sy'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw*' (28%) a '*rhaglenni sy'n berthnasol i mi*' (28%).

## Mae gwylwyr yng Nghymru o'r farn bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu'n dda ar raglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU

Dywedodd dwy ran o dair (66%) o wylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn perfformio'n 'dda'[7] ar y cyfan o ran darparu '*rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU*'. Roedd tua thri gwyliwr o bob pump yng Nghymru yn teimlo bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu *'digwyddiadau darlledu 'da' sy'n dod â'r wlad at ei gilydd ar gyfer profiad rhannu ar y cyd'* (63%) a *'rhaglenni sy'n cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd*' (60%).

Ar ôl cynyddu yn 2022, mae cyfran y gwylwyr a oedd yn teimlo bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gwneud yn dda wrth gyflwyno '*amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon*' wedi dychwelyd i'w lefel yn 2021 (2021 65%; 2022 75%; 2023 64%).

---

[6] Gofynnwyd y cwestiwn hwn i'r holl ymatebwyr a lenwodd yr arolwg ar-lein, heb gynnwys y rheini a lenwodd yr arolwg dros y ffôn.
[7] Mae Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom yn defnyddio cwestiynau sy'n gofyn i ymatebwyr ddweud sut mae elfennau gwahanol 'da neu 'ddrwg' yn cael eu darparu, gan ddefnyddio graddfa 1-10 lle mae 1 yn golygu gwael iawn a 10 yn golygu da iawn. Wrth gyfeirio at 'da' drwy'r adroddiad hwn, mae'n NET o sgorau 7 i 10.

Wrth edrych ar briodoleddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ymwneud â chynrychiolaeth a'r ardal leol, dywedodd dros hanner y gwylwyr fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu'n dda ar '*raglenni sy'n berthnasol i mi*' (55%), '*rhaglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal*' (55% ) a '*rhaglenni sy'n cynnwys Cymru*' (52%). Roedd cyfrannau ychydig yn is yn teimlo bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu'n 'dda' ar '*raglenni sy'n cynnwys pobl fel fi*' (46%).

Roedd rhywfaint o amrywiaeth mewn agweddau tuag at sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol; er enghraifft, roedd gwylwyr yng Nghymru yn llai tebygol na chyfanswm y DU o ddweud bod sianeli teledu Channel 4 yn darparu'n 'dda' ar '*raglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal*' (25% o'i gymharu â 32%). Ar gyfer sianeli ITV Cymru Wales ac ITV TV, roedd gwylwyr yn fwy tebygol na chyfanswm y DU o ddweud eu bod wedi cyflawni'n dda ar '*raglenni sy'n cynnwys Cymru*' (53% o'i gymharu â 46%).

### Mae'n ymddangos bod S4C yn darparu newyddion a rhaglenni dibynadwy a chywir yn y DU sy'n wahanol i ddarparwyr eraill

Dywedodd tua thri gwyliwr o bob pump (63%) yn y DU[8] eu bod yn fodlon ag S4C, yn unol â blynyddoedd blaenorol, a dywedodd saith o bob deg (69%) yr un fath ag S4C Clic.

Dywedodd tri o bob pump fod S4C wedi darparu'n 'dda' ar '*newyddion dibynadwy a chywir y DU*' (60%), '*rhaglenni sy'n wahanol i ddarparwyr eraill o ran y ffordd maen nhw'n ymdrin â phethau'* (60%) a '*rhaglenni sy'n cynnwys fy rhanbarth/gwlad*' (59%). Roedd gan S4C Clic sgoriau cyflawni tebyg ar draws y rhan fwyaf o ddatganiadau, ond gwelwyd ei fod yn cyflawni'n arbennig o dda ar ddatganiadau fel '*rhaglenni sy'n cynnwys fy rhanbarth/gwlad*' (71%), '*digwyddiadau darlledu sy'n dod â'r wlad at ei gilydd ar gyfer profiad o rannu*' (68%), '*rhaglenni sy'n wahanol i ddarparwyr eraill o ran y ffordd maen nhw'n ymdrin â phethau*' (67%) a '*rhaglenni sy'n cynnwys pobl fel fi*' (67%).[9]

# Tueddiadau gwylio fideo ar-alw

## Mae gan wylwyr ddewis eang o wasanaethau tanysgrifio

Yng Nghymru, cynyddodd cyfran yr aelwydydd a dderbyniodd wasanaethau SVoD yn Ch1 2024, gyda 70% o aelwydydd yn derbyn o leiaf un gwasanaeth, i fyny o 63% yn Ch1 2023.[10]


Mae defnydd honedig, o Arolwg Fideos Ar-alw Ofcom, yn dangos mai Netflix yw'r gwasanaeth SVoD mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ac yna Amazon Prime Video a Disney+, ond mae yna hefyd lawer o wasanaethau SVoD llai ar gael i wylwyr yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau fel NOW ac Apple TV, a gwasanaethau genre arbenigol fel Shudder (arswyd) a Hayu (teledu realaeth). Fe wnaeth y defnydd honedig o Paramount+ yng Nghymru ddyblu blwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae'n uwch nag yn y gwledydd eraill.

[8] Rydym yn adrodd ar ein canfyddiadau ar gyfer y DU yma, gan fod maint sylfaenol ymatebwyr yng Nghymru ar gyfer S4C ac S4C Clic yn rhy isel.

[9] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.

[10] Arolwg Sefydliad BARB Ch1 2024. Yn dilyn newidiadau i holiadur Arolwg Sefydliad Barb, gwelwyd cynnydd sydyn yn nifer yr aelwydydd a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg, ac mae'r newid hwn yn dal aelwydydd sydd â thanysgrifiadau goddefol fel y rhai sydd â phecynnau Sky penodol.

**Ffigur 10: Defnydd honedig o wasanaethau SVoD a ddefnyddir i wylio rhaglenni, ffilmiau neu fideos eraill yng Nghymru: 2024**




*Ffynhonnell: Arolwg VoD Ofcom 2024, oedolion/pobl ifanc 13 oed a hŷn, ar-lein a CATI wedi'i gyfuno, Cymru. Cyrhaeddiad honedig ar gyfer gwasanaethau a ddefnyddiwyd yn bersonol yn ystod y tri mis diwethaf (gwaith maes Chwefror – Mawrth 2024). Sylwch: yn adroddiadau Cyfryngau'r Genedl 2023 roeddem wedi adrodd ar y ffigurau cyrhaeddiad honedig ar gyfer y gwasanaethau hyn gan ddefnyddio'r sampl ar-lein yn unig. Felly, nid oes modd cymharu ffigurau eleni, oherwydd defnyddio'r sampl ar-lein a CATI llawnach.*

Mae Traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus Ofcom yn dangos bod lefelau bodlonrwydd â gwasanaethau SVoD yn dal yn uchel; mae o gwmpas pedwar gwyliwr o bob pump yng Nghymru yn dweud eu bod yn fodlon â Netflix (85%), Disney+ (83%) ac Amazon Prime (80%).[11]

Mae pum deg pump y cant o bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion yng Nghymru yn dweud eu bod wedi defnyddio YouTube i wylio rhaglenni, ffilmiau neu gynnwys fideo arall yn y tri mis cyn y gwaith maes, yn unol â'r gwledydd eraill.[12]




Fideos byr yw'r math mwyaf poblogaidd o fideos sy'n cael eu gwylio ar YouTube yng Nghymru. Roedd chwe deg tri y cant o bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ar-lein wedi honni eu bod yn gwylio

[11] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.

[12] Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom 2024 (sampl ar-lein a CATI). Sylwer: mae rhai ffigurau YouTube yn ymddangos yn wahanol rhwng y gwledydd, ond nid yw'r ffigurau'n wahanol iawn i'w gilydd.


fideos byr (15 munud neu lai) nad oeddent yn Fideos YouTube yn ystod y tri mis cyn y gwaith maes, a 46% wedi gwylio YouTube Shorts (fideos 60 eiliad neu lai). Roedd tri deg saith y cant yn honni eu bod wedi gwylio fideos YouTube dros 15 munud (ond nid rhaglenni neu ffilmiau hyd llawn) a dim ond 12% ddywedodd eu bod wedi gwylio rhaglenni neu ffilmiau llawn ar y platfform.[13]

## BBC iPlayer yw'r gwasanaeth fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf poblogaidd yng Nghymru o hyd

Canfu arolwg fideo ar-alw Ofcom fod bron i naw o bob deg (89%) o oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru wedi dweud eu bod wedi defnyddio gwasanaeth fideo ar-alw y gellir ei wylio am ddim (unrhyw wasanaeth ffrydio nad yw y tu ôl i wal dalu, gan gynnwys YouTube a BBC iPlayer).

Roedd y defnydd a hawliwyd o'r holl wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon wedi aros yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall. Dywedodd chwe deg pump y cant o oedolion a phobl ifanc yng Nghymru eu bod wedi defnyddio BBC iPlayer yn y tri mis cyn y gwaith maes, gyda 39% yn defnyddio ffrydio Channel 4, ac un o bob pump yn defnyddio My5 (20%) yn ystod yr un cyfnod. Dywedodd ychydig o dan hanner y bobl yng Nghymru eu bod wedi defnyddio ITVX (48%).

**Ffigur 11: Gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddiwyd i wylio rhaglenni, ffilmiau neu fideos eraill yn ystod y tri mis diwethaf: 2024**




*Ffynhonnell: Arolwg VoD Ofcom 2024, oedolion/pobl ifanc 13 oed a hŷn, ar-lein a CATI wedi'i gyfuno, Cymru. Cyrhaeddiad honedig ar gyfer gwasanaethau a ddefnyddiwyd yn bersonol yn ystod y tri mis diwethaf (gwaith maes Chwefror – Mawrth 2024). Sylwch: yn adroddiadau Cyfryngau'r Genedl 2023 roeddem wedi adrodd ar y ffigurau cyrhaeddiad honedig ar gyfer y gwasanaethau hyn gan ddefnyddio'r sampl ar-lein yn unig. Felly, nid oes modd cymharu ffigurau eleni, oherwydd defnyddio'r sampl ar-lein a CATI llawnach.*

[13] Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom 2024 (sampl ar-lein).

## Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn fodlon â gwasanaethau BVoD

Pan ofynnwyd iddynt ystyried eu bodlonrwydd â'r gwahanol wasanaethau BVoD, dywedodd mwy na thri chwarter (78%) o wylwyr Cymru eu bod yn fodlon â BBC iPlayer, a dywedodd tua dwy ran o dair yr un peth am ITVX neu ITVX Premium[14] (67%) . Dywedodd cyfrannau ychydig yn is eu bod yn fodlon ar wasanaeth ffrydio Channel 4 neu Channel 4+ (63%) a My5 (64%).

Yng Nghymru, dywedodd gwylwyr BVoD[15] eu bod yn defnyddio gwasanaethau BVoD '*i ddal i fyny ar raglenni rydw i wedi'u colli ar y teledu*' (61%), er mwyn gallu '*gwylio beth rydw i ei eisiau, pan rydw i eisiau*' (51%), '*gwylio rhaglenni hŷn neu archif* ' (37%) neu '*wylio rhaglenni penodol neu setiau bocs'* (36%). Roedd rhai o'r rhesymau a grybwyllwyd amlaf dros beidio â defnyddio gwasanaethau BVoD yn ymwneud â ffafrio gwasanaethau eraill, dim diddordeb yn y rhaglenni sydd ar gael, neu ddim mynediad at y gwasanaeth.

# Ffynonellau newyddion


Canfu Arolwg Defnydd Newyddion Ofcom fod ychydig llai na hanner y bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru (47%) yn defnyddio BBC One ar gyfer newyddion yn gyffredinol, sy'n golygu mai dyma'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf, ac yna ITV Cymru Wales (34%). Roedd y sianeli teledu eraill yn y deg uchaf yn cynnwys Sky News Channel, a BBC News Channel. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn uchel iawn hefyd, gyda Facebook y drydedd ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd (32%), tra bod X (Twitter yn flaenorol) yn gydradd ddegfed ar 14%. BBC Radio 2 oedd y brif orsaf radio a nodwyd (11%) ond nid oedd yn y deg uchaf. Nid oedd unrhyw bapur newydd wedi cyrraedd y deg uchaf.

Roedd yr arolwg hefyd yn casglu ffigurau sy'n ymwneud â defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw. Y mwyaf poblogaidd o'r rhain oedd BBC iPlayer; roedd ychydig llai nag un rhan o bump o bobl 16 oed a hŷn (19%) yng Nghymru yn defnyddio'r gwasanaeth hwn ar gyfer newyddion. Roedd ITV a Channel 4 hefyd yn ymddangos yn yr 20 prif ffynhonnell newyddion, gyda'r naill a'r llall yn cael eu defnyddio gan 11%.

[14]Ar adeg y gwaith maes ar gyfer yr Adnodd Tracio Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, roedd gwasanaeth BVoD Channel 4 yn cael ei alw'n All 4 neu All 4+, a BVoD ITV oedd ITV Hub neu ITV Hub+.

[15]Diffinnir gwylwyr BVoD fel y rheini sydd wedi gwylio o leiaf un gwasanaeth BVoD yn ystod y chwe mis diwethaf.


### Ffigur 12: Deg ffynhonnell newyddion uchaf yn gyffredinol yng Nghymru: 2024




*Ffynhonnell: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 Ofcom - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: D2a-D8a. Gan feddwl yn benodol am <platfform>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sylfaen: Pawb 16 oed a hŷn yng Nghymru - 2024=671. *Wedi'i ychwanegu gan BBC iPlayer yn 2023. **Symudodd YouTube o 'ar-lein arall' i 'gyfryngau cymdeithasol' yn 2024 ac felly nid oes modd cymharu'r ffigurau â 2023.*

Mae gan y bobl sy'n byw yng Nghymru gryn ddiddordeb mewn newyddion am Gymru. Mae ychydig llai na dwy ran o bump o'r rhai sy'n dilyn newyddion yn dweud bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am Gymru (38%), ffigur sy'n codi i 80% ymysg y rheini sydd â diddordeb 'mawr' neu 'ganolig'. Fel sy'n cael ei ddangos isod, pobl 16 oed a hŷn yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru sydd fwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am eu gwlad na phobl yn Lloegr.

### Ffigur 13: Lefel diddordeb pobl mewn newyddion am eu gwlad eu hunain, yn ôl gwlad: 2024




*Ffynhonnell: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 Ofcom - sampl cyfun WyW ac AR-LEIN Cwestiwn: F3. Faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn newyddion am eich GWLAD/RHANBARTH? Sylfaen: Pawb 16 oed a hŷn sy'n dilyn newyddion 2024 - Cyfanswm=5250, Lloegr=3404, Yr Alban=647, Cymru=635, Gogledd Iwerddon=564.*

BBC One (31%) ac ITV Cymru Wales (23%) oedd y ffynonellau newyddion mwyaf poblogaidd a'r ail fwyaf poblogaidd ar gyfer y wlad, ac yna Facebook (18%), newyddion ar-lein yng Nghymru (11%) a newyddion ar-lein y BBC (11%). Gwelwyd hefyd 'rhestr hirfaith' o ffynonellau newyddion am y wlad, gan gynnwys llawer o dan 5%.

**Ffigur 14: Ffynonellau mae pobl wedi'u defnyddio i gael gafael ar newyddion am eu gwlad: 2024**

| Lloegr | |
|---|---|
| BBC One | 26% |
| Facebook | 16% |
| ITV1 | 16% |
| Newyddion y BBC ar-lein | 7% |
| Instagram | 6% |
| Sianel BBC News | 5% |
| WhatsApp | 5% |
| X (Twitter yn flaenorol) | 5% |
| YouTube | 5% |
| Ddim yn dilyn newyddion rhanbarthol | 11% |

| Gogledd Iwerddon | |
|---|---|
| BBC One | 36% |
| UTV | 34% |
| BBC Radio Ulster/Foyle | 19% |
| Facebook | 15% |
| Cool FM | 13% |
| Newyddion y BBC ar-lein | 11% |
| X (Twitter yn flaenorol) | 8% |
| Unrhyw wefannau/apiau newyddion yng Ngogledd Iwerddon | 6% |
| Sianeli RTE / Virgin Media One | 6% |
| The Belfast Telegraph | 5% |
| U105 | 5% |
| Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 2% |

| Yr Alban | |
|---|---|
| BBC One | 27% |
| STV | 27% |
| Facebook | 21% |
| Newyddion y BBC ar-lein | 10% |
| Teledu BBC Scotland | 8% |
| Instagram | 7% |
| Clyde 1/ Forth 1/ West Sound/ Tay FM/ Northsound 1/ MFR | 7% |
| BBC Radio Scotland | 6% |
| X (Twitter yn flaenorol) | 6% |
| Sianel Sky News | 6% |
| Sianel BBC News | 5% |
| YouTube | 5% |
| Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 3% |

| Cymru | |
|---|---|
| BBC One | 31% |
| ITV WALES | 23% |
| Facebook | 18% |
| Unrhyw wefan/ap newyddion yng Nghymru | 11% |
| Newyddion y BBC ar-lein | 11% |
| BBC Radio Wales | 6% |
| Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 9% |


*Ffynhonnell: Arolwg Defnyddio Newyddion Ofcom 2024 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN, cwestiwn sampl: F6. O ba un o'r ffynonellau canlynol rydych chi'n cael newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn eich GWLAD/RHANBARTH y dyddiau hyn? Sylfaen: Pawb 16 oed a hŷn yn defnyddio teledu/papurau newydd/radio/ar-lein/cylchgrawn ar gyfer newyddion 2024 – Lloegr=3340, Yr Alban=632, Cymru=627, Gogledd Iwerddon=545. Dim ond ffynonellau sy'n cyrraedd 5%+ ym mhob gwlad sy'n cael eu dangos.*

## Gwylio newyddion o'r gwledydd/rhanbarthau

Roedd dros hanner (57%) y bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru wedi gwylio newyddion teledu yn 2023, gyda 57% ar gyfartaledd yn gwylio unrhyw gynnwys newyddion ar unrhyw sianel. Roedd tri chwarter y gwylwyr newyddion hyn hefyd yn gwylio newyddion y gwledydd/rhanbarthau.

Roedd gwylwyr yng Nghymru yn ffafrio newyddion ar y BBC yn gryf yn hytrach nag ITV Cymru Wales, gyda 48% yn gwylio newyddion ar y BBC o'i gymharu â 30% yn defnyddio ITV Cymru Wales. Roedd y gwahaniaeth mwyaf ar gyfer newyddion cenedlaethol/rhyngwladol, lle'r oedd gan raglenni'r BBC arweiniad o 19 pwynt canran dros ITV Cymru Wales. Roedd hyn hefyd yn wir am newyddion gwledydd/rhanbarthau, lle'r oedd yn cael ei arwain gan 14 pwynt canran.

**Ffigur 15: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog newyddion yng Nghymru, yn ôl darlledwr: 2023**




*Barb, pob darllediad, 28 diwrnod wedi ei gyfuno, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 3 munud a mwy %, pobl 16 oed a hŷn. Rhanbarth: BBC Wales. Genre: newyddion y gwledydd/rhanbarthau; newyddion y DU/rhyngwladol. Mae newyddion cenedlaethol/rhyngwladol yn cyfeirio at raglenni newyddion rhwydwaith sydd â'r un cynnwys ledled y DU. Mae newyddion y gwledydd/rhanbarthau yn cyfeirio at raglenni newyddion sy'n cael eu darlledu o Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban, neu ranbarthau yn y gwledydd hynny. Mae enghreifftiau o raglenni'n cynnwys BBC Wales Today ac ITV News Wales at Six.*

# Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru

**Sut rydym yn adrodd ar wariant ar raglenni**

Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn ymdrin â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn ogystal â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y wlad a'u darlledu ar draws y DU. Mae'n canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU i'w ddarlledu am y tro cyntaf, sef rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio.

Mae gwariant ar y cynnwys hwn yn cynnwys yr holl gostau a wynebir gan y darlledwr sy'n gysylltiedig â chreu rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys costau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cynyrchiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir, ond nid yw'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â marchnata a dosbarthu.

**Sut rydym yn cyflwyno data ariannol**


Cyflwynir data ariannol a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn mewn termau nominal, sy'n golygu nad yw data hanesyddol wedi cael ei addasu i ystyried chwyddiant. Yn ein hadroddiad rhyngweithiol, gall defnyddwyr weld data ariannol mewn termau nominal neu 'real' (wedi'i addasu yn ôl CPI), gyda defnyddwyr yn gallu symud yn hawdd rhwng y ddau.

## Fe wnaeth gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru gynyddu 2%

O'r cyfanswm o £36.0m o wariant yn 2023 ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru, roedd y rhan fwyaf (£19.9m) yn mynd tuag at raglenni nad ydynt yn ymwneud â newyddion/materion cyfoes. Roedd hyn ychydig yn is nag yn 2022 (-2.1%) ond yn llawer uwch nag yn y blynyddoedd yr effeithiwyd arnynt gan Covid yn 2020 a 2021 a hefyd yn uwch nag yn y blynyddoedd cyn Covid.

Materion cyfoes oedd â'r twf cymharol mwyaf mewn gwariant sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, gan gynyddu 18.9% o un flwyddyn i'r llall i £3.7m. Roedd gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni newyddion yng Nghymru wedi cynyddu 6% am yr ail flwyddyn yn olynol.

**Ffigur 16: Gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre: 2017-2023 (£m)**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Fe wnaeth gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru gynyddu yn 2023

Mae'r cynnydd yn y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn cael ei sbarduno gan y BBC, ac mae'r gwariant ar gyfer Cymru wedi cynyddu o £29.5m yn 2022 i £29.7m yn 2022 (cynnydd o 0.9%). Fel y dangosir gan y cyfansymiau darlledu gwasanaeth cyhoeddus cyfun uchod, roedd hyn yn bennaf o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion a rhaglenni heb fod yn rhaglenni materion cyfoes.[16] Roedd gwariant ITV ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi cynyddu 9.6% yn 2023.

**Ffigur 17: Gwariant y BBC ac ITV Cymru Wales ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf heb fod ar y rhwydwaith ar gyfer Cymru: 2017-2023 (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

---


[16] Gall hyn gynnwys rhai cyd-gomisiynau rhwng gwasanaethau rhwydwaith y BBC a gwasanaethau heb fod ar y rhwydwaith. Yn 2022, pe bai rhaglenni o'r fath yn cael eu darlledu'n rhanbarthol yn gyntaf, mae'r gwariant yn cael ei gofnodi fel rhan o wariant rhaglenni rhanbarthol y BBC.

## Roedd oriau'r BBC o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng 7% i 559 awr

Mae'r gostyngiad hwn mewn oriau wedi cael ei sbarduno gan faterion nad ydynt yn ymwneud â newyddion/materion cyfoes, a oedd â'r gostyngiad cyfrannol mwyaf o -19.6%, neu 52 awr. Cynyddodd oriau newyddion a materion cyfoes: materion cyfoes o 2 awr (6.5%) a newyddion o 6 awr (2.0%).

Yn gyffredinol, cynnwys newyddion yw'r rhan fwyaf o allbwn y BBC i Gymru, sef 56% o'r oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

**Ffigur 18: Oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre: 2017-2023**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Mae oriau ITV Cymru Wales o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi aros yn gyson o un flwyddyn i'r llall, gyda 324 awr o allbwn rhaglenni

Cynnwys newyddion yw mwyafrif helaeth allbwn ITV Cymru Wales, sef 77% (248 awr) o'r rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar y sianel. Roedd y ddarpariaeth newyddion yn gyson o un flwyddyn i'r llall, gan godi 0.4%.

Roedd y cynnydd mwyaf ar gyfer oriau materion cyfoes, a gynyddodd o 7 awr (12.7%). Roedd oriau nad ydynt yn ymwneud â materion cyfoes a newyddion wedi gostwng 7 awr (33.3%).

**Ffigur 19: Oriau ITV Cymru Wales o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre: 2017-2023**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Cynnwys rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru

Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud rhaglenni mewn amrywiaeth o leoedd o amgylch y DU i'w darlledu ar eu sianeli teledu rhwydwaith. Mae gan y darlledwyr gwotâu sy'n ymwneud â hyn, o ran cyfran yr oriau cymwys a'r gyfran o wariant cymwys y mae'n rhaid ei phriodoli i ardaloedd y tu allan i Lundain. Mae gan y BBC gwotâu unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU ac mae gan Channel 4 gwota 'y tu allan i Loegr' hefyd. Nid oes gofyniad penodol i ITV na Channel 5 gynhyrchu cynnwys y tu allan i Loegr.

Ar draws yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cafodd 4.3% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu darlledi am y tro cyntaf ei neilltuo i raglenni sy'n cyfrif fel cynyrchiadau o Gymru, cynnydd o gymharu â 2022, a chafodd 3.4% o oriau rhwydwaith cymwys ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ei neilltuo i gynyrchiadau o Gymru, yn unol â'r flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 20: Cyfran yr oriau rhwydwaith a'r gwariant cymwys y tu allan i Lundain, pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd: 2017-2023 (%)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*


## Cynyddodd cyfrannau gwariant yng Nghymru yn 2023

Fe wnaeth y BBC, sy'n cynhyrchu'r gyfran fwyaf o gynnwys rhwydwaith cymwys yng Nghymru, gynyddu ei wariant rhwydwaith yng Nghymru i 7.9% yn 2023, gan gynyddu ei gyfran o oriau i 6.4%. Roedd cynyrchiadau allweddol yn 2023 yn cynnwys dramâu *His Dark Materials* a *Wolf*, yn ogystal â Phennod Arbennig o *Doctor Who* i ddathlu 60 mlynedd o'r gyfres. Yn ychwanegol, mae'r BBC yn rheoli nifer o gynyrchiadau celfyddydol a cherddoriaeth o Gaerdydd, darllediadau'r Chwe Gwlad, gan gynnwys cystadleuaeth y merched, yn ogystal â chyfresi drama hirsefydlog fel *Casualty* a *Doctor Who*.

Gostyngodd cynyrchiadau rhwydwaith yng Nghymru ar gyfer Channel 4 yn 2023: gostyngodd yr oriau rhwydwaith i 3.8% a gostyngodd y gwariant i 3.4%. Ymhlith y teitlau a gynhyrchir yng Nghymru mae adloniant ffeithiol a hamdden *Handmade: Britain's Best Woodworker, Sarah Beeny's New Life In The Country* a'r rhaglen gomedi *The Change*.

Roedd cyfran yr oriau a'r gwariant cymwys a gafodd ei neilltuo i Gymru gan ITV yn dal yn isel, yn dilyn gostyngiad yn 2022 pan wnaeth *I'm a Celebrity... Get Me Out of Here!* ddychwelyd i ffilmio yn Awstralia.

**Ffigur 21: Cyfran y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus: 2017-2023 (%)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

# Radio a sain

## Datblygiadau yn y farchnad

### BBC Cymru Wales

Ym mis Ionawr 2024, cymeradwyodd Ofcom gais gan y BBC i ymestyn ei oriau darlledu ar Radio Cymru 2 o 25 i 61.5 awr yr wythnos, gan ei gwneud yn orsaf Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU ar ei phen ei hun. Dechreuodd BBC Radio Cymru 2 ddarlledu ei oriau estynedig ym mis Mawrth; mae'n rhaid iddo gynnig cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru a darparu bwletinau newyddion rheolaidd a dyddiol.

Ail-lansiodd BBC Radio Wales ei sioe frecwast yn ystod y cyfnod hwn gyda'r cyflwynwyr James Williams a Dot Davies yn rhoi sylw manwl i ddigwyddiadau allweddol, gan gynnwys ymadawiad Mark Drakeford ac ethol Vaughan Gething yn Brif Weinidog. Rhoddwyd sylw helaeth i'r digwyddiadau hyn hefyd ar safleoedd newyddion BBC Wales.

Mae Radio Wales a Radio Cymru wedi cyflwyno bwletinau newyddion optio allan (rhaglenni sy'n benodol i'r gwledydd neu'r rhanbarthau) ar gyfer gwrandawyr. Bydd cynulleidfaoedd sy'n derbyn eu signal o drosglwyddyddion yng ngogledd Cymru, gan gynnwys o Flaenplwyf, sy'n gwasanaethu Pen Llŷn, yn cael newyddion pwrpasol am ogledd Cymru. Bydd cynulleidfaoedd yn ne Cymru yn cael newyddion am dde Cymru.

Fel rhan o ymrwymiad parhaus y BBC i wasanaethu'r DU gyfan, cyhoeddodd y byddai Sam a Dani o Radio 1 yn cael eu lleoli yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd ar gyfer y *Weekend Breakfast Show*. Fe'u dilynwyd gan y cyflwynydd Huw Stephens, sydd bellach yn cynnal sioe brynhawn ar Radio 6 Music o'r un hyb darlledu. Cyflwynwyd nifer o bodlediadau hefyd gan dimau sain BBC Cymru Wales, gan gynnwys *Death of a Code Breaker* a *The Crossbow Killer*.

### DAB ar raddfa fach

Bellach mae tri amlblecs DAB ar raddfa fach ar yr awyr yng Nghymru, gyda phedwerydd ar fin cael ei lansio. Ar hyn o bryd, mae gan amlblecs Caerdydd 11 o wasanaethau rhaglen, ac mae gan amlblecs Wrecsam naw. Fe wnaeth Gwent Digital Broadcasting Ltd lansio ei wasanaethau ar amlblecs Casnewydd a Chasnewydd ddechrau mis Gorffennaf, a bydd amlblecs De Sir Benfro a Gogledd Sir Benfro yn dechrau darlledu yn ddiweddarach eleni.

Fel rhan o'r chweched rownd o drwyddedu DAB ar raddfa fach, mae Ofcom wedi hysbysebu trwydded amlblecs ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, ac wedi ail-hysbysebu'r drwydded ar gyfer Abertawe. Nid oedd y sawl a oedd wedi ennill gwobr o Abertawe yn gallu lansio ei wasanaeth o fewn y cyfnod gofynnol o 18 mis.

### Radio cymunedol

Mae naw gwasanaeth radio cymunedol yn darlledu yng Nghymru: BGfm; Bro Radio; Calon FM; GTfm; Mon FM; Radio Cardiff; Rhondda Radio; Tircoed; a Sound. O'r rhain, mae Bro Radio ar gael ar DAB+, ac mae'n gwasanaethu Caerdydd a rhannau dwyreiniol Bro Morgannwg.

Wedi'i sefydlu yn 2020, mae trwyddedau Gwasanaeth Sain Digidol Cymunedol (C-DSP) wedi'u cynllunio i ddarparu llwybr cost isel i wasanaethau cerddoriaeth cymunedol, lleol neu arbenigol ddarlledu ar radio digidol mewn ardal ddaearyddol lai na'r amlblecsau mwy, dinas neu ranbarth.

Mae'r Gronfa Radio Cymunedol yn parhau i gefnogi costau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom, ac mae nawr yn croesawu ceisiadau gan wasanaethau C-DSP sy'n darlledu ar amlblecs ar raddfa fach.[17] Yn ystod 2023-24 cafodd pum gwasanaeth C-DSP gyllid gan y Gronfa. Y rhain oedd: Radio Cardiff, Bro Radio, Rookwod Sound, Crest Community Radio a Wrexham Premier Radio.

# Argaeledd a darpariaeth Radio

Darperir gwasanaethau radio yng Nghymru gan y BBC a gan y sectorau radio masnachol a chymunedol.

Mae gwasanaethau'r BBC ledled y DU ar gael ledled Cymru ar radio DAB ac AM/FM. Mae'r BBC hefyd yn gweithredu tri gwasanaeth ledled Cymru: BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, sy'n cael eu darlledu ar FM a DAB, a BBC Radio Cymru 2, sy'n cael ei darlledu ar DAB.

Ym mis Mawrth 2024, roedd dwy orsaf fasnachol genedlaethol, 15 gorsaf fasnachol leol a naw gorsaf radio cymunedol yn darlledu ar AM/FM yng Nghymru. Roedd pump deg chwech o orsafoedd masnachol yn darlledu ar DAB, heb newid ers y llynedd, ac roedd nifer y gorsafoedd masnachol lleol sy'n darlledu ar DAB wedi aros ar 32.

**Ffigur 22: Nifer y gwasanaethau radio masnachol a chymunedol yng Nghymru, yn ôl technoleg darlledu: Mawrth 2024**

| | AM/FM | DAB |
|---|---|---|
| Masnachol ledled y DU | 2 | 56 |
| Masnachol lleol | 15 | 32 |
| Cymunedol | 9 | Amh |

*Ffynhonnell: Ofcom. Sylwch: mae nifer y gwasanaethau ar amlblecsau masnachol a restrir yma yn cynnwys yr holl wasanaethau sy'n cael eu trwyddedu'n fasnachol sy'n cael eu cludo ar bob amlblecs, felly mae'n bosibl y bydd gwasanaeth yn cael ei gyfrif fwy nag unwaith. Nid yw pob gwasanaeth ar gael ym mhob lleoliad. Mae trwyddedau Radio Cymunedol yn drwyddedau analog ond gall deiliaid y trwyddedau hyn hefyd ddal trwydded DSP (rhaglen sain ddigidol) fasnachol i gyd-ddarlledu eu gwasanaeth Radio Cymunedol trwyddedig ar amlblecs DAB. Mae'r data yn y tabl yn ymwneud ag amlblecsau ledled y DU ac amlblecsau lleol yn unig. Mae trwyddedau C-DSP yn caniatáu i wasanaeth radio cymunedol gael ei ddarlledu ar amlblecs DAB dynodedig ar raddfa fach.*

Roedd darpariaeth DAB ledled Cymru wedi aros yr un fath ers 2023, gyda mwy na naw o bob deg cartref (92.2%) yn cael darpariaeth gan wasanaethau DAB y BBC ac wyth o bob deg (82.6%) yn cael darpariaeth gan wasanaethau DAB lleol. Cynyddodd darpariaeth DAB ar raddfa fach yng Nghymru ychydig dros 2 bwynt canran i 17.6% ym mis Mawrth 2024.

[17] Mae'r Gronfa Radio Cymunedol yn cael ei gweinyddu gan Ofcom ar ran yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n darparu ar gyfer y gronfa.

**Ffigur 23: Darpariaeth DAB ym mis Mawrth 2024**

| | | BBC | Masnachol | | | Ar raddfa fach |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Digital One | Sound Digital | DAB lleol | |
| Y DU | Cartrefi | 97.4% | 91.7% | 82.6% | 92.0% | 25.6% |
| | Priffyrdd | 87.4% | 80.2% | 72.6% | 76.8% | NM |
| Lloegr | Cartrefi | 98.4% | 94.8% | 86.7% | 93.4% | 25.2% |
| | Priffyrdd | 94.5% | 93.9% | 89.8% | 87.4% | NM |
| Gogledd Iwerddon | Cartrefi | 87.3% | 85.4% | 56.8% | 87.5% | 32.1% |
| | Priffyrdd | 79.3% | 86.9% | 55.0% | 87.8% | NM |
| Yr Alban | Cartrefi | 95.3% | 81.7% | 69.0% | 85.4% | 32.1% |
| | Priffyrdd | 69.1% | 45.5% | 33.6% | 45.6% | NM |
| Cymru | Cartrefi | 92.2% | 67.5% | 56.9% | 82.6% | 17.6% |
| | Priffyrdd | 78.1% | 53.3% | 37.7% | 60.9% | NM |


*Ffynhonnell: Arqiva, BBC, Ofcom. Nodyn: Mae darpariaeth DAB ar raddfa fach yn cael ei fesur ar sail cartrefi yn unig. Mae 'NM' yn dynodi nad yw lefelau'n cael eu mesur.*

# Refeniw radio masnachol

## Cynyddodd refeniw radio masnachol y pen yng Nghymru rhwng 2022 a 2023

Cynyddodd refeniw radio lleol masnachol y pen 3% o flwyddyn i flwyddyn yng Nghymru, er, ar £5.03 y pen, roedd hyn yn dal yn is na chyfartaledd y DU, sef £6.92.

**Ffigur 24: Refeniw radio masnachol y pen, yn ôl gwlad: 2023 (£)**




| | Newid o un flwyddyn i'r llall |
|---|---|
| Y DU | -3% |
| Lloegr | -4% |
| Gogledd Iwerddon | 5% |
| Yr Alban | -2% |
| Cymru | 3% |

*Ffynhonnell: Ofcom, ffurflenni darlledwyr. Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud yn unig â chyfanswm trosiant perthnasol a adroddwyd yn erbyn trwyddedau AL (masnachol analog lleol) ac mewn perthynas â hysbysebu maent yn cynnwys refeniw hysbysebu lleol a chenedlaethol, hynny yw, dim ond y refeniw sy'n gysylltiedig â hysbysebion sydd wedi'u hanelu ar gyfer gwlad benodol. Gan nad oedd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2023 ar gael adeg cyhoeddi 2022, mae data poblogaeth canol blwyddyn 2022 wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer 2022 a 2023.*

# Gwrando ar radio byw yng Nghymru

**O ble daw ein data**

Daw ein ffigurau ar gyfer cyrhaeddiad a chyfran gwrando ar wahanol fathau o sain o IPA TouchPoints, a daw ffigurau ar wrando byw ar y radio gan RAJAR. Mae'r ddwy ffynhonnell yn cyfeirio at oedolion fel rhai 15 oed a hŷn felly rydym wedi defnyddio'r derminoleg hon yma.


## Mae gwrando a chyrhaeddiad wythnosol yn uwch yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw

Mae radio yn parhau i fod yn gryf yng Nghymru, gydag ychydig o dan naw o bob deg oedolyn (89.2% / 2.3 miliwn) yn gwrando bob wythnos. Nid yn unig y mae cyrhaeddiad wythnosol ychydig yn uwch nag ar draws y DU yn gyffredinol, ond mae pobl yng Nghymru hefyd yn tueddu i wrando am ychydig yn hirach, sef 20.9 awr yr wythnos ar gyfartaledd o gymharu â chyfartaledd y DU o 20.5 awr.[18]

## Mae gorsafoedd y BBC ar draws y DU yn perfformio'n arbennig o dda

Mae Ffigur 25 yn dangos cyrhaeddiad y gwahanol sectorau darlledu yn 2024 a sut maent yn amrywio yn ôl gwlad. Mae dros hanner y bobl yng Nghymru (57.2%) yn gwrando ar orsafoedd y BBC ledled y DU o leiaf unwaith yr wythnos, sy'n uwch nag yn unrhyw un o wledydd eraill y DU ac ar draws y DU gyfan. Mae cyrhaeddiad gorsafoedd cenedlaethol/lleol y BBC yng Nghymru (18.6%) yn cyd-fynd yn fras â'r Alban (16.7%) ac yn uwch na chyfartaledd y DU (12.2%), tra bod Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn allanolyn, gan ddenu cyrhaeddiad llawer uwch ar draws y ddau sector lleol.

**Ffigur 25: Cyrhaeddiad wythnosol radio yn ôl sector a gwlad: Ch1 2024**





*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2024; TSA pob radio, TSA BBC Radio Ulster, TSA BBC Radio Scotland, TSA BBC Radio Wales, TSA BBC Local Radio yn Lloegr. Pwysiad: Pwysoliad awtomatig.*

[18] RAJAR Ch1 2024

## Radio'r BBC sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwrando ar y radio yng Nghymru

Yn wahanol i Ogledd Iwerddon a'r Alban, mae radio'r BBC yn perfformio'n dda yng Nghymru, gan gyfrif am y rhan fwyaf (51.9%) o gyfanswm y gwrando ar y radio. Mae'r rhan fwyaf o'r gwrando hwn ar orsafoedd y BBC ledled y DU, gyda gorsafoedd lleol/y gwledydd (Radio Wales, Cymru a Chymru 2) yn cyfrif am 9.2% o oriau. Mae cyfran lai o wrando ar orsafoedd masnachol lleol; yn is nag yn rhannau eraill y DU (fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 26).

**Ffigur 26: Cyfran y gwrando ar y radio, yn ôl sector a gwlad: Ch1 2024**





*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2024; TSA pob radio, TSA BBC Radio Ulster, TSA BBC Radio Scotland, TSA BBC Radio Wales, TSA BBC Local Radio yn Lloegr. Pwysoliad awtomatig.*

## Cyrhaeddiad BBC Radio Wales a Radio Cymru yn cynyddu i'r lefelau uchaf ers gwanwyn 2022

Ar ôl gostyngiad yn ystod 2023, mae ffigurau cynulleidfa BBC Radio Wales wedi dechrau gwella. Mae gan BBC Radio Cymru broffil oedran iau na BBC Radio Wales: mae traean o'i gwrandawyr o dan 45 oed o'i gymharu ag un rhan o bump o wrandawyr BBC Radio Wales (33.0% o'i gymharu â 20.5%). Mae cynulleidfa BBC Radio BBC Cymru hefyd yn fwy tebygol o fod mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch: 64.5% ABC1 o'i gymharu â 45% ar gyfer BBC Radio Wales. Dim ond 8% o gynulleidfa BBC Radio Wales sydd hefyd yn gwrando ar BBC Radio Cymru, tra bod chwarter gwrandawyr BBC Radio Cymru hefyd yn gwrando ar BBC Radio Wales (24.7%).

### Ffigur 27: Cyrhaeddiad wythnosol a phroffil cynulleidfa ar gyfer BBC Radio Wales / BBC Radio Cymru, yn ôl oedran




*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales; pwysoliad chwe mis. Sylwer: Nid yw BBC Radio Cymru 2 yn cael ei gynnwys fel gorsaf ar wahân ar RAJAR ond mae ei ffigurau wedi'u cynnwys yn BBC Radio Cymru.*

O graffu ar lefel gorsafoedd, gallwn weld bod gorsafoedd radio'r BBC yn boblogaidd ledled Cymru, ond mae'n werth nodi'r amrywiadau bach fesul ardal. Heart, sy'n eiddo i Global, oedd yr unig orsaf fasnachol ledled y DU i ymddangos yn y pump uchaf ledled Cymru yn Ch1 2024, gyda dim ond un o orsafoedd Bauer yn ymddangos oherwydd eu presenoldeb cyfyngedig yng Nghymru. BBC Radio Cymru oedd y bedwaredd orsaf fwyaf poblogaidd yng Ngogledd Cymru, a BBC Radio Wales a BBC Radio 1 oedd y pedwerydd a'r pumed safle yn y de, ac ar draws Cymru gyfan, yn y drefn honno.

**Ffigur 28: Y pum gorsaf / rhwydwaith uchaf yn ôl ardal ac yn ôl cyfran o'r farchnad: Ch1 2024**

| Ardal | Safle | Gorsaf | Cyfran y farchnad % | Darlledwr |
|---|---|---|---|---|
| **Ledled Cymru** | 1 | BBC Radio 2 | 18.0 | BBC |
| | 2 | BBC Radio 4 | 11.4 | BBC |
| | 3 | Heart (DU) | 8.8 | Global |
| | 4 | BBC Radio Wales | 5.5 | BBC |
| | 5 | BBC Radio 1 | 4.7 | BBC |
| **Gogledd Cymru** | 1 | BBC Radio 2 | 20.0 | BBC |
| | 2 | BBC Radio 4 | 14.6 | BBC |
| | 3 | Heart (DU) | 6.3 | Global |
| | 4 | BBC Radio Cymru | 5.6 | BBC |
| | 5 | Smooth (DU) | 5.4 | Global |
| **De Cymru** | 1 | BBC Radio 2 | 17.1 | BBC |
| | 2 | Heart (DU) | 9.9 | Global |
| | 3 | BBC Radio 4 | 9.8 | BBC |
| | 4 | BBC Radio Wales | 6.3 | BBC |
| | 5 | BBC Radio 1 | 4.7 | BBC |


*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2024; TSA BBC Radio Wales; TSA Heart North Wales; TSA Heart South Wales; pwysoliad awtomatig.*

## Mae chwarter y gwrando ar y radio yng Nghymru ar-lein, y rhan fwyaf o hyn drwy seinyddion clyfar

Mae'r newid graddol i wrando ar-lein yn parhau, gyda seinyddion clyfar, ffonau clyfar a dyfeisiau eraill sy'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd bellach yn cynrychioli ychydig dan chwarter (24.5%) o'r holl wrando ar radio yng Nghymru. Mae tua dwy ran o dair o'r holl wrando ar y radio ar-lein yn digwydd drwy seinyddion clyfar. Mae'r ffigur hwn yn uwch ar gyfer y darlledwyr masnachol Global (18.8%), Bauer (18.0%) a News Broadcasting (19.9%), ac yn is ar gyfer y BBC, sy'n 11.3%.

Yng nghanol y twf hwn mewn gwrando ar-lein, mae DAB a radio analog yn parhau i fod yn gadarn yng Nghymru. Roedd DAB yn cyfrif am ychydig o dan bedwar o bob deg awr ar y radio (39.3%), dros 6 pwynt canran yn glir o gyfran AM/FM o 32.7%.

**Ffigur 29: Cyfran y gwrando ar y radio yn ôl platfform a grŵp darlledu, Cymru: 2022-2024**





*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales.*

## Mae mwyafrif y gwrando mewn ceir yng Nghymru bellach yn digwydd drwy DAB, tra bod ychydig dros un rhan o bump o'r gwrando yn y cartref yn cael ei wneud gan seinyddion clyfar

Wrth edrych ar oriau gwrando yn y cartref, mae cyfran y siaradwyr clyfar o wrando yn cynyddu i 21.2% (o'i gymharu â'r cyfartaledd o 14.5% ar draws pob lleoliad, hynny yw yn y cartref, yn y car ac yn y gwaith/mewn lleoliadau eraill). Mewn ceir, mae'r rhan fwyaf o'r gwrando nawr yn digwydd drwy DAB (52.7%). Flwyddyn yn ôl, roedd gwrando mewn ceir wedi'i rannu'n fwy cyfartal rhwng AM/FM (48.7%) a DAB (45.8%). Mae'r cynnydd hwn, sef bron i saith pwynt canran, yn golygu bod cyfran y platfform o wrando ar y radio yng Nghymru yn debycach i'r cyfartaledd ar draws y DU, er bod cyfran DAB yn dal yn is na chyfartaledd y DU (57.5%).

**Ffigur 30: Cyfran y platfformau sy'n gwrando yn y cartref ac mewn ceir, yn ôl gwlad: Ch1 2024**





*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2024; TS pob radio; TSA Radio Lleol y BBC yn Lloegr, TSA BBC Radio Ulster; TSA BBC Radio Scotland; TSA BBC Radio Wales; pwysoliad chwe mis.*

# Gwrando ar-lein yng Nghymru

## Gwrando ar radio cerddoriaeth oedd y gweithgaredd sain wythnosol mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ac yna ffrydio cerddoriaeth

Gan edrych yn fwy eang ar bob math o sain ar draws dyfeisiau, gwasanaethau cerddoriaeth ar-lein (fel Spotify, Apple ac Amazon) yw'r ail fformat sain mwyaf poblogaidd ar ôl gwrando ar radio cerddoriaeth. Mae ychydig dros ddwy ran o dair o oedolion yng Nghymru yn gwrando ar radio cerddoriaeth (67%) ac mae hanner (50%) yn gwrando ar wasanaeth cerddoriaeth ar-lein o leiaf unwaith yr wythnos.

**Ffigur 31: Cyrhaeddiad wythnosol gweithgareddau sain: oedolion 15 oed a hŷn yng Nghymru: 2024 o'i gymharu ag 2023**





*Ffynhonnell: Arolwg Sain Ofcom 2023. Q1: Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwrando ar unrhyw un o'r canlynol? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n oedolyn (sail wedi'i bwysoli yn 2023: 107. 2024, sail wedi'i bwysoli: 158). NET: Wythnosol.*

## Mae Spotify yn gyfrifol am bron i dri chwarter y gerddoriaeth sy'n cael ei ffrydio yng Nghymru

Gan ganolbwyntio ar ffrydio cerddoriaeth, roedd Spotify Premium yn cyfrif am y rhan fwyaf (63%) o gyfanswm yr amser a gafodd ei dreulio yn ffrydio cerddoriaeth yng Nghymru yn 2023/24 – pum pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ledled Prydain Fawr (58%). Gan gynnwys yr haen rhad ac am ddim a gefnogir gan hysbysebion (Spotify Free), a oedd yn cyfrif am 11%, cyfanswm cyfran amser ffrydio cerddoriaeth Spotify yng Nghymru oedd 74% yn 2023/24. Amazon Music oedd y platfform mwyaf poblogaidd nesaf, gan gyfrif am 14% o'r amser a gafodd ei dreulio yn ffrydio cerddoriaeth, ac yna Apple Music ar 4%.

**Ffigur 32: Cyfran yr amser a gafodd ei dreulio'n ffrydio cerddoriaeth, yn ôl platfform: oedolion ym Mhrydain Fawr, yr Alban a Chymru**





*Ffynhonnell: IPA TouchPoints Superhub 2023/24; oedolion 15 oed a hŷn.*

## Roedd y twf mewn gwrando ar bodlediadau yng Nghymru wedi arafu yn Ch1 2024, gyda llai nag un oedolyn o bob pump yn gwrando bob wythnos

Mae podlediadau'n araf, ond yn bendant, yn dod yn rhan o'r deiet sain cyfartalog, ond roedd llai nag un oedolyn o bob pump (17.6%) yng Nghymru yn gwrando arnynt unwaith yr wythnos yn Ch1 2024. Mae hyn yn is na ffigur cyrhaeddiad y DU sef 20.7%, a gostyngiad bach ers Ch1 2023 (17.9%) ond mae'n dal yn fwy na dwbl ffigur 2018 (8.2%).

**Ffigur 33: Cyrhaeddiad wythnosol gwrandawyr podlediadau, yn ôl gwlad: 2018-2024**




*Ffynhonnell: RAJAR; mae llinellau dotiog yn dangos atal gwaith maes oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19. Arweiniodd hyn at newidiadau dilynol mewn methodoleg, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu â chwarteri blaenorol.*

## Mae gan fwy na phedwar aelwyd o bob deg yng Nghymru seinydd clyfar, ac mae gan un o bob pedwar set radio DAB yn y cartref

Mae gan ychydig dros bedwar aelwyd o bob deg (45%) yng Nghymru seinydd clyfar, yn unol â'r DU drwyddi draw (41%).[19] Mae Amazon yn parhau i fod y brand mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gyda bron i naw o bob deg cartref gyda seinyddion clyfar yn cael Amazon Echo (87%), ac yna Google Home / Google Nest yn 13%. Y lle mwyaf poblogaidd i gael seinydd clyfar yw'r ystafell fyw, gydag ychydig dros hanner y perchnogion seinyddion clyfar yn gosod un yno (51%), ac yna'r gegin (42%) a'r ystafell wely (38%). O'i gymharu â hyn, mae gan ychydig dros chwarter (26%) o aelwydydd yng Nghymru radio DAB gartref ac mae gan hanner (50%) un yn y car, gyda chyfanswm treiddiad aelwydydd o setiau radio DAB yn 59%.

[19] Traciwr Technoleg Ofcom 2024.